**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

27/05/2026

Annwyl Syr / Fadam

**Gwahoddiad i gynnig Tendr am CYG044: Gwasanaethau Cefnogi TG ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") yn eich gwahodd i gynnig tendr ar gyfer darparu Gwasanaethau Cefnogi TG ar ran y Comisiynydd yn unol â'r manylion yn y dogfennau amgaeedig.

1.2 Fe gewch yn amgaeedig:

- Manyleb
- Amodau Cymryd Rhan
- Tabl Prisio
- Telerau ac Amodau

1.3 Mae'r Comisiynydd yn cynghori tendrwyr i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â natur yr oblygiadau i'w derbyn ganddynt os bydd eu tendr yn llwyddiannus.

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Ffordd Balaclafa
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Balaclafa Way
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

1.4 Cyfrifoldeb tendrwyr yw canfod, ar eu cost eu hunain, yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer paratoi eu tendr. Bydd gwybodaeth a ddarperir gan y Comisiynydd (naill ai drwy'r dogfennau tendr neu beidio) yn cael ei ddarparu fel canllaw gyffredinol ar gyfer paratoi tendrau. Bydd yn rhaid i dendrwyr fodloni eu hunain fod yr wybodaeth honno yn gywir ac nid yw'r Comisiynydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wybodaeth a ddarganfyddir gan dendrwyr.

1.5 Dylai pob gwybodaeth sy'n cael ei darparu gan y Comisiynydd ynghylch y tendr hwn gael ei thrin fel gwybodaeth gyfrinachol gan y tendrwr.

1.6 Ni ddylai'r tendrwr ddweud wrth unrhyw un arall, hyd yn oed yn fras, beth fydd pris ei dendr cyn y terfyn amser ar gyfer tendrau. Yr unig eithriad fydd os bydd angen dyfynbris yswiriant ar y person sy'n cynnig y tendr er mwyn cyfrifo pris y tendr, fe all rhoi gwybodaeth angenrheidiol i'w gwmni neu asiant yswiriant ar yr amod ei fod yn gwneud hynny yn gyfrinachol.

1.7 Ni ddylai'r tendrwr geisio cael gwybodaeth am dendr neu ddarpar dendr unrhyw un arall cyn y terfyn amser ar gyfer cynnig tendr.

1.8 Ni ddylai'r tendrwr wneud trefniant gydag unrhyw un arall ynglŷn â'r dewis i gynnig tendr ai peidio, nac ynglŷn â pris tendr unrhyw barti.

## 2. Cyfnod y Contract

2.1 Bwriad y Comisiynydd yw y bydd y gwaith dan y contract newydd yn dechrau ar 24/11/2026 ac yn cael ei gwblhau erbyn 30/11/2029. Bydd y contract yn para am 3 blynedd, gyda'r opsiwn i ymestyn am hyd at 2 mlynedd arall yn ddibynnol ar berfformiad a chyllideb.

## 3. Cynnig a Derbyn

3.1 Dylai'r tendrwr gyflwyno cynnig electroneg ar e-bost wedi'i farcio fel a ganlyn:

**DOGFENNAU TENDR CYG044 : Hollol Breifat a Chyfrinachol**

tendro@cyg-wlc.cymru

3.2 Dylai dogfennau tendr gael eu llofnodi gan ddau berson awdurdodedig.

3.3 Dylai'r tendrau gael eu cyflwyno erbyn 12:00, canol dydd ar 03 Gorffennaf 2026. Nid yw'r Comisiynydd yn ymrwymo i ystyried cynigion a dderbynnir wedi'r amser hwnnw.

3.4 Bydd y Comisiynydd yn disgwyl i'r tendrwr gadw ei dendr yn ddilys i'w dderbyn am gyfnod o 60 dydd wedi dyddiad cau'r tendrau.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

3.5 Rydym yn cynghori tendrwyr y bydd unrhyw gyswllt â'r Comisiynydd (heblaw am geisiadau am wybodaeth bellach yn ôl y brîff amgaeedig), yn ffurfiol neu'n anffurfiol, mewn perthynas â'r tendr yn ystod cyfnod cyflwyno tendrau yn golygu y gallwn wrthod eu cynnig.

Yr eiddoch yn gywir,

**Richard Davies**

**Uwch Swyddog Cyllid ac Adnoddau**

Ar ran Comisiynydd y Gymraeg